Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Hazelhurst**

**Heol Sully**
**Penarth**
**CF64 2TP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Hazelhurst

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | HAZELHURST NURSING HOME (PENARTH) LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 41 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 2 Mawrth 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Gall Cartref Nyrsio Hazelhurst letya 41 o bobl ag amrywiaeth o anghenion nyrsio a gofal personol. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ddirybudd. Mae rheolwr yn ei le, sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Santokh Bamrah yw unigolyn cyfrifol y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm cyfeillgar o staff. Mae digon o staff ar gael i ddarparu gofal, gyda threfniadau addas ar waith i unioni'r sefyllfa os bydd prinder staff.

Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn weladwy ac yn cymryd rhan yn y gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae systemau ar waith i sicrhau ansawdd y gofal a rhoddir cymorth o safon uchel. Mae'r ddogfennaeth gofal yn adlewyrchu anghenion gofal a iechyd y bobl sy'n byw yn y cartref ond gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella. Mae'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol cyffredinol a disgwylir i hyfforddiant ychwanegol gael ei gynnal ar feysydd penodol.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n gartrefol ac yn addas ar gyfer eu hanghenion, ond gwnaethom nodi y byddai'n fuddiol adnewyddu rhai rhannau o'r cartref. Mae amgylchedd y cartref yn ddiogel. Ymgynghorir â'r bobl am y gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt. Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith i leihau'r risg o ledaenu clefydau heintus drwy'r cartref.

## Llesiant

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r brif fynedfa i'r cartref wedi'i chloi. Mae trefniadau ar gyfer diogelwch tân a gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar waith. Mae pob rhan o'r cartref yn lân ac yn bleserus ac yn addas ar gyfer anghenion y bobl. Mae'r rheolwr yn sicrhau ei fod yn lle diogel i'r bobl sy'n byw yno, yn gweithio yno ac yn ymweld. Gall y bobl symud yn rhydd yn unol â'u galluoedd a'r risgiau a aseswyd. Mae gan y cartref bum llawr, a gellir eu cyrraedd drwy ddefnyddio'r lifft teithwyr sydd wedi cael ei atgyweirio'n ddiweddar yn dilyn sawl wythnos lle roedd wedi torri.

Rhoddir dewis da o brydau bwyd a diodydd i'r bobl er mwyn diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau o ran maeth. Gwelsom rai o'r bobl yn mwynhau'r prydau bwyd a ddarperir a gwelsom fod y profiad amser bwyd yn cynnig cyfnod cymdeithasol i'r bobl ei fwynhau. Mae gan y cartref sgôr hylendid bwyd o 3 (boddhaol). Gwnaethom siarad â phobl a oedd yn canmol y dewis o fwyd a'i safon.

Mae mesurau ar waith i hyrwyddo safonau ymarfer da ym mhob rhan o'r cartref, gyda mesurau atal a rheoli heintiau cadarn ar waith sy'n cydymffurfio â Chanllawiau Iechyd y Cyhoedd. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio digwyddiadau, damweiniau, cwynion a materion diogelu. Mae datganiad o ddiben ar gael sy'n gyfredol ac yn adlewyrchu'r cartref.

Mae'r rheolwyr yn goruchwylio anghenion hyfforddi a goruchwylio'r staff. Cynhelir cyfarfodydd tîm sy'n benodol i rôl pob gweithiwr ac awgrymwyd gennym y dylid cymryd cofnodion o bob cyfarfod staff. Mae proses recriwtio gadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n ddiogel ac yn unol â'i ddatganiad o ddiben.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael gofal a chymorth priodol ac mae'r staff yn gweithredu mewn ffordd gyfeillgar. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol a dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gydberthynas waith dda a'u bod yn dangos parch. Mae'r ddogfennaeth a ddefnyddir i gefnogi'r broses o ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl wedi newid yn ddiweddar i system electronig. Mae angen atgyfnerthu'r system hon er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys risgiau a nodir fel deiet a maeth. Caiff y bobl eu hannog i wahodd ymwelwyr i ddod i'r cartref a dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym, *“Staff are caring and kind”, “I am well looked after, I couldn’t ask for more really”.*

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl gael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant parhaus. Roedd y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn ffeiliau gofal electronig y bobl yn dangos tystiolaeth o atgyfeiriadau a chyswllt ag amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol. Gwelsom fod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu gwneud mewn modd amserol a phryd bynnag y byddai anghenion y bobl yn newid. Roedd y bobl yn iach yr olwg ac yn cael gofal a chymorth i gyflawni eu canlyniadau personol. Fodd bynnag, er bod y cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl, gwnaethom nodi meysydd lle mae angen i'r staff fod yn fwy cadarn wrth wneud nodiadau dyddiol er mwyn sicrhau bod y canllawiau cywir yn cael eu dilyn. Gwnaethom drafod rhai materion â'r tîm rheoli y byddai o fudd eu hystyried, gan gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill; gwybodaeth fanylach mewn perthynas â gofynion o ran deiet a chymeriant hylif dyddiol. Dywedodd y rheolwr wrthym y byddai'n mynd i'r afael â hyn ar unwaith.

Gwelsom fod profiad amser bwyd y bobl yn gyfnod cymdeithasol i'r bobl ei fwynhau. Gwnaethom arsylwi ar yr ardal fwyta yn ystod amser cinio a gwelsom y bobl yn mwynhau'r pryd a oedd wedi'i ddarparu, ac yn eistedd yn sgwrsio ag eraill o amgylch y byrddau bwyta. Roedd pobl eraill, yr oedd yn well ganddynt wneud hynny, wedi aros yn eu hystafelloedd neu mewn ardaloedd tawelach o'r cartref. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhoi sgôr o 3 i'r cartref, sef 'boddhaol'.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom fod iaith y corff ac ystumiau'r bobl yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel ymysg y staff gofal sy'n eu cefnogi. Dywedodd y tîm o staff wrthym eu bod yn deall pwysigrwydd rhoi gwybod am bryderon a'u bod yn teimlo eu bod yn gallu mynd at y rheolwr/Unigolyn Cyfrifol i fynegi unrhyw faterion neu bryderon ac y byddent yn cael eu cefnogi'n dda iawn. Mae'r staff gofal yn weladwy, a gwelsom fod y trefniadau staffio'n cael eu goruchwylio'n briodol. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn dda a dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio â'r preswylwyr mewn modd cyfeillgar a pharchus. Gwelsom weithgareddau yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r cartref ac roedd digon o staff i sicrhau rhyngweithio un i un ystyrlon drwy gydol y dydd.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint, er enghraifft drwy roi amserlenni glanhau ar waith. Mae gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith. Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff gofal eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau rheoli heintiau, ac fe'u gwelsom yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol pan fo angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn ddiogel a chaiff yr adeilad ei gadw'n ddiogel gan system bysellbad sydd ar waith. Mae'n rhaid i ymwelwyr ganu'r gloch er mwyn cael mynediad. Mae'r cartref yn cynnig llety addas i'r bobl. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio gofynion iechyd a diogelwch y cartref. Gwnaethom nodi yn ystod ein taith o amgylch y cartref fod rhai o'r ffenestri ar agor ac y gall hyn beri risg i'r preswylwyr. Mae'r staff yn cynnal gwiriadau diogelwch yn rheolaidd a gwelsom gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEP) cyfredol ar waith. Mae asesiad risg tân ar waith ac mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân a chodi a chario. Mae pob elfen o'u hyfforddiant yn gyfredol neu mae dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer yr hyfforddiant diweddaraf. Caiff archwiliadau amgylcheddol eu cynnal yn ddyddiol/wythnosol er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd yn lân ac yn ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd y mae angen eu gwella mewn perthynas â  gwaith adnewyddu mewn gwahanol rannau o'r cartref lle ceir ôl traul.

Mae gan y bobl ymdeimlad o berthyn. Mae gan y cartref sawl ardal gymunedol fach i'r bobl eistedd a mwynhau gydag eraill neu dreulio amser ar eu pen eu hunain. Mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu personoli gydag eitemau o ddewis y bobl a'u heiddo personol. Mae ardal fwyta agored fawr a gall pobl ag anghenion symudedd fynd i mewn ac allan o'r ardal yn hwylus. Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd glân a chartrefol. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai eitemau personol yn cael eu storio'n amhriodol mewn ystafelloedd ymolchi cymunedol. Gwnaethom ofyn i'r rhain gael eu symud. Roedd y rheolwr yn cytuno â'r canfyddiadau a dywedodd wrthym y byddai'n ymdrin â'r mater ar unwaith.

Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch. Gwnaethom ystyried amrywiaeth o gofnodion mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, a oedd yn dangos bod gan y darparwr drefniadau goruchwylio effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae gan y cartref lyfr ymwelwyr yn unol â'r trefniadau diogelwch tân a chaiff manylion adnabod ymwelwyr eu gwirio. Gwelsom fod pob un o'r gwiriadau diogelwch mewn perthynas â chofnodion gosod systemau nwy a thrydan a chofnodion diogelwch yn foddhaol ac yn gyfredol. Roedd yr holl ffeiliau cyfrinachol, gan gynnwys ffeiliau gofal a ffeiliau'r staff, yn cael eu storio'n ddiogel.

Gall y bobl fod yn hyderus bod trefniadau effeithiol yn y cartref a fydd yn amddiffyn diogelwch y cyhoedd ac yn lleihau'r risg o groes-heintio. Mae trefniadau goruchwylio ar waith i sicrhau bod y staff yn dilyn y canllawiau cywir ar heintiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi a gwelsom fod y staff yn cael hyfforddiant ar gyfer y rolau y maent yn eu cyflawni. Gwnaethom edrych ar ffeiliau recriwtio staff a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wiriadau cyn cyflogi gofynnol ar gyfer unrhyw berson sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un yn unol â'r gofynion rheoliadol. Mae'r sesiynau goruchwylio yn rhoi cyfleoedd i bob aelod o'r staff drafod ei berfformiad, datblygiad a/neu unrhyw bryderon a allai fod ganddo. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant y staff yn gyfredol ar y cyfan, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed, rheoli heintiau a chodi a chario.

Gall y bobl fod yn hyderus bod y tîm rheoli yn monitro ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae'r systemau a'r prosesau sydd ar waith gan amlaf yn helpu i hyrwyddo'r gwaith o redeg y cartref yn ddidrafferth; fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd lle roedd angen gwneud rhai gwelliannau. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio digwyddiadau, damweiniau a chwynion. Caiff archwiliadau mewnol eu cynnal gan y cartref i fonitro safonau ac ymarfer. Gwnaethom edrych ar rai o'r polisïau allweddol a gwelsom eu bod yn gyfredol ac wedi'u hadolygu. Gall y staff gael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau ac maent yn rhoi canllawiau a gwybodaeth iddynt i'w cefnogi yn eu rolau.

Gwnaethom siarad â'r staff yn ystod ein hymweliadau a dywedwyd wrthym, *"Management are really helpful", "I enjoy my job and feel supported", "I have been here many years and wouldn't change anything".* Mae'r trefniadau trosglwyddo dyddiol yn sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei rhannu ymysg y staff yn ystod cyfnodau trosglwyddo shifft. Gwnaethom nodi fod y broses archwilio a gwblheir yn rheolaidd gan amlaf yn sicrhau bod materion iechyd neu unrhyw ddirywiad mewn unigolyn yn cael eu nodi a bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Cynhelir cyfarfodydd staff ar sail ad hoc, ond nid oedd cofnodion yn cael eu cymryd. Gwnaethom gynghori y dylid cymryd cofnodion ym mhob cyfarfod yn y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff unrhyw faterion a godwyd eu datrys. Mae'r rheolwr yn weladwy a chafodd ei ddisgrifio gan y staff fel nigolyn *"supportive"* a *"helpful and approachable".* Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref fel sy'n ofynnol a gwnaethom edrych ar yr adroddiad monitro ansawdd bob tri mis ar gyfer mis Gorffennaf/Medi 2023 a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Gwelsom o'r adroddiad fod rhai meysydd yr oedd angen eu gwella y gwnaethom dynnu sylw atynt drwy gydol ein hymweliad wedi'u nodi'n flaenorol gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r rheolwr wedi rhoi sicrwydd i ni bod camau ar waith i ymdrin â'r meysydd hyn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan ei fod wedi methu â sicrhau bod y cynllun personol ar gyfer yr unigolyn yn nodi sut y caiff anghenion gofal a chymorth yr unigolyn eu diwallu o ddydd i ddydd a'r camau a gaiff eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau a nodir i lesiant yr unigolyn. Mae'r dystiolaeth a welsom yn y cynlluniau personol unigol yn dangos bod angen cymorth gan y staff ar rai o'r bobl sy'n byw yn y cartref yn ystod amser bwyd i fwyta bwydydd meddal/piwrî ac i yfed. Gwelsom un unigolyn yn cael cymorth mewn ffordd amhriodol gan y staff yn ystod amser bwyd gan fod yr aelod o staff yn sefyll i roi'r cymorth ac nad oedd unrhyw ryngweithio wrth wneud hynny. Roedd y lifft yn y cartref wedi torri ar y pryd ac roedd y staff yn helpu preswylwyr i'w hystafelloedd gwely unigol, ac felly roedd llawer o darfu ar y trefniadau ar gyfer rhoi cymorth i bobl â'u prydau. Dylai'r cyfnod hwn fod yn gyfnod digynnwrf a chymdeithasol i'r bobl fwynhau. Gwelsom o'r cofnodion dyddiol a oedd yn cael eu cwblhau gan y staff nad oedd trwch y prydau a oedd yn cael eu gweini i'r bobl â deietau piwrî/meddal yn cael ei ddogfennu. Hysbyswyd y rheolwr y dylid sicrhau bod y ddogfennaeth a oedd yn cael ei chwblhau gan y staff yn gadarn er mwyn gwneud yn siŵr bod y prydau a gaiff eu bwyta o drwch addas yn unol ag asesiadau'r bobl. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/01/2024